


Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Biodiversity Partnership Yr Hyn a Gyflawnwyd yn 2014/ 2014 Achievements



- Mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin** yn bartneriaeth o gyrff sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwylt a chynefinoedd y sir.
- Hwylusir y Bartneriaeth gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor a chaiff y Bartneriaeth grant blynyddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae amgylchedd naturiol Cymru yn cefnogi amrywiaeth enfawr o fywyd gwylt. Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o gymdeithas gynaliadwy a chadarn yng Nghymru.
- Mae amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin o bwys i bob un ohonom mewn sawl ffordd wahanol. Mae bioamrywiaeth yn rhoi i ni lawer o'r pethau sy'n cynnal ein bywydau, drwy nifer o wasanaethau pwysig:
 - ♦ Darparu – mae'n darparu bwyd (gwenith, pysgod, ac ati), tanwydd (pren, glo), dŵr ffres, meddyginiaeth, tecstilau.
 - ♦ Rheoleiddio - cael gwared ar lygryddion, rheoli llifogydd, amsugno carbon deuocsid (nwyon tŷ gwydr), atal erydiad.
 - ♦ Diwylliannol - tirweddau hardd, ymdeimlad o le, hamdden a thwristiaeth, ysbrydoliaeth ac ymchwiliadau, boed gan blant ysgol neu wyddonwyr.
 - ♦ Cynnal – mae'n cynnal priddoedd a thyfiant planhigion.
- Crynodeb yw hwn o'r hyn a gyflawnwyd gan y partneriaid yn 2014, yn aml drwy gydweithio i warchod ac i wella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.
- The **Carmarthenshire Biodiversity Partnership** is a partnership of organisations concerned with the conservation of the county's wildlife and habitats.
- The Partnership is facilitated by the Council's Biodiversity Officer and receives annual grant funding from Natural Resources Wales.
- The natural environment of Wales supports the huge variety the wildlife that lives here. A healthy natural environment is a vital part of a sustainable and robust society in Wales.
- Carmarthenshire's natural environment matters to us all - in many different ways. Biodiversity provides us with many of the things that sustain our lives, through a number of important services:
 - ♦ *Provisioning* - providing food (wheat, fish, etc.), fuel (timber, coal), fresh water, medicine, textiles.
 - ♦ *Regulating* - disposing of pollutants, controlling floods, absorbing carbon dioxide (greenhouse gases), stopping erosion.
 - ♦ *Cultural* – beautiful landscapes, a sense of place, recreation and tourism, inspiration and investigation from schoolchildren to scientists.
 - ♦ *Supporting* - maintaining soils and plant growth.
- This is a summary of the achievements made by the partners in 2014, often working together, to conserve and enhance Carmarthenshire's diverse range of habitats and species.

***Pwysigrwydd Bioamrywiaeth – ni allwn fyw hebdi!
Biodiversity matters – we can't live without it!***



Mae Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor, wedi bod yn gweithio ar chwe chomin ger Brechfa a Llanfynydd lle mae cynefinoedd corsydd pwysig. Gwelwyd bod dyfnder mawn dwy o'r corsydd yn fwy nag 8.5 metr - sy'n golygu bod y mawn yno wedi ymffurfio dros 8000 o flynyddoedd gan beri bod y corsydd hyn yn rhai o bwys cenedlaethol. Dangoswyd, yn ystod teithiau cerdded gyda phobl leol ar ddau o'r tiroedd comin yn ystod yr haf, ein bod yn gallu dysgu rhagor am y newidiadau o ran defnydd tir ac o ran yr hinsawdd yn y gorffennol drwy astudio gweddillion planhigion a phail yn y creiddiau mawn o gorsydd. Bydd gwaith ymchwil gan Brifysgol Abertawe yn helpu i ddatgelu cyfrinachau'r corsydd hyn. Crëwyd strimynnau atal tân er mwyn atal y cynefinoedd gwerthfawr hyn rhag cael eu llosgi'n ddireolaeth, a chaewyd ffosydd er mwyn helpu i gadw dŵr yn y ffosydd.

The Welsh Government and Council-funded **Carmarthenshire Bogs Project** has been working on six commons near Brechfa and Llanfynydd, which have important bog habitats. Survey has shown that peat depth on two of the bogs is over 8.5 m – that's over 8000 years of peat formation and makes these bogs nationally important. Walks with local people on two of the commons during the summer showed that by looking at the remains of plants and pollen within peat cores from bog habitats we can find out about past changes in land use and climate. Future research by Swansea University will help unlock the bog's mysteries. Fire breaks have been cut to help prevent uncontrolled burning of these valuable habitats and ditches blocked to help retention of water in the bogs.



F. Lanc

*Crëwyd **Parc Natur Ynysdawela** ger Brynaman, sy'n eiddo i'r Cyngor, yn rhannol ar hen waith glo a bellach mae'n llecyn pwysig i fywyd gwylt, gan gynnwys **brithegion y gors** a **phathewod**. Mae yno laswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau ac sy'n garreg sarn bwysig rhwng poblogaeth brithegion y gors Cross Hands a'r poblogaethau o amgylch Cwm-gors a Chwm Tawe.*

*Yn sgil y gwaith rheoli yn ystod y gaeaf diwethaf cofnodwyd brithegion y gors yn Ynysdawela yn ystod yr haf eleni a hynny am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. O ganlyniad i'r arolwg gan **Warchod Glöynnod Byw** clustnodwyd mwy na 50 o gaeau yn ardal Brynaman sydd â chynefin addas ar gyfer brithegion y gors. Felly dyma ardal bwysig iawn i'r glöyn byw hwn. Ym mis Medi bu'r parcmyn, staff yr Ymddiriedolaeth Natur a gwirfoddolwyr yn trasio mieri ar gyrion y glaswelltir yn Ynysdawela. Gwnaed y gwaith dan drwydded, ac archwiliwyd yr holl lecynnau lle'r oedd bwriad i waredu'r mieri er mwyn sicrhau na fyddai'r gwaith yn effeithio ar nythod pathewod. Dylai hyn beri bod llewyrch ar y glaswelltir yr haf nesaf - a'r gobaith yw y byddwn yn cofnodi hyd yn oed fwy o frithegion y gors yno!*



© I.Macho

The Council's **Ynysdawela Nature Park**, near Brynamman was created partly on a former colliery site and is now an important site for wildlife, including the **marsh fritillary butterfly** and **dormouse**. The species-rich grassland here forms a 'stepping stone' habitat between the important marsh fritillary population in the Cross Hands area and populations around Cwmgors and the Tawe valley.

After grassland management last winter, marsh fritillaries were recorded at Ynysdawela this summer for the first time in many years. Survey by **Butterfly Conservation** has identified over 50 fields in the Brynamman area that have suitable habitat for marsh fritillaries so this is another important area for this butterfly. In September brambles were cut back at the edge of the grassland at Ynysdawela by rangers, Wildlife Trust staff and volunteers. The work was carried out with a licence and all areas of bramble were checked to make sure no dormice nests were affected. This should encourage the grassland to flourish next summer – hopefully we will record even more marsh fritillaries then!



© I.Macho

Datblygwyd prosiect arloesol gan **Gyngor Sir Caerfyrddin** i wrthbwyso effeithiau'r datblygiadau yn ardal Cross Hands ar **frithegion y gors**, sef rhywogaeth o löyn byw sy'n cael ei gwarchod. Mae'r cyfraniadau sy'n dod i law yn sgil ceisiadau cynllunio yn cael eu defnyddio i brynu neu i reoli tir yn yr ardal ar gyfer y glöynnod byw hyn. Mae'r prosiect yn cydweithio â chontractwyr a gwirfoddolwyr lleol ac yn cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o faterion cadwraeth yn yr ardal. Erbyn hyn mae 33 o hectarau'n cael eu rheoli, codwyd 1375 o fetrau o ffensys a thrawsleolwyd 1000m² o laswelltir corsiog, a fyddai wedi ei gollu fel arall yn sgil codi tai, i Barc Gwledig Llyn Llech Owain. Yn ogystal, drwy gydweithio â Phrifysgol Aberystwyth mae'r prosiect wedi cyfrannu at ddwy astudiaeth a fydd yn cynyddu ein gwybodaeth am damaid y cythraul - sef yr unig blanhigyn y mae larfâu'r rhywogaeth yn ei fwyta.



© I.Macho

A ground-breaking project by **Carmarthenshire Council** has been developed to offset the impacts of development in the Cross Hands area on the protected **marsh fritillary butterfly**. Contributions from planning applications are used to purchase or manage land within the butterfly's range. The project works with local contractors and volunteers, and provides an opportunity to raise awareness of conservation in the area with young people. Thirty-three hectares are now under management, 1375 m of fencing has been erected and 1000 m² of marshy grassland, which would otherwise have been lost to a housing development, have been translocated to Llyn Llech Owain Country Park. In addition, in collaboration with Aberystwyth University, the project has contributed to two studies that will increase our knowledge of the Devil's bit scabious plant - the only larval food plant of the butterfly.



© A.Evans

© A.Evans



Mae **Cadwch Gymru'n Daclus**, **Trefi Taclus** a **Pharcmon Arfordirol y Cyngor** wedi bod yn gweithio law yn llaw ym **Morfa Berwig** yn y Bynea i greu mynediad i gerddwyr, i reoli'r cynefin, i osod arwyddion, ac i godi ffensys er mwyn amgylchynu'r glaswelltir yno. Mae'r safle hwn, sy'n eiddo i'r cyngor, yn bwysig i fywyd gwyllt gan gynnwys dyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr, ac mae'n safle bywyd gwyllt da i'r bobl leol yn y Bynea.

Yn ogystal â helpu i wneud gwaith cadwraeth pwysig, mae'r gwaith gwirfoddoli sy'n cael ei wneud yma ac ar safleoedd eraill sydd ym meddiant y Cyngor (mae'r gwirfoddolwyr ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain wedi bod yn helpu i dyfu ac i blannu tamaid y cythraul, sef planhigyn sy'n allweddol i ffyniant brithhegion y gors) yn gyfle i wirfoddolwyr gael awyr iach yn eu cymuned leol gan roi cynnig ar rywbeth newydd, cwrdd â ffrindiau newydd a chael ymarfer corff. Mae gwirfoddolwyr Mencap a Choose Life a gwirfoddolwyr cymunedol oll ar eu hennill yn sgil gweithio ar brosiectau cadwraeth eleni.

Keep Wales Tidy, **Tidy Towns** and the **Council's Coastal Ranger** have been working hard at **Morfa Berwig** at Bynea to main access for walkers, manage the habitat, put up signs and fence off the grassland there. This council-owned site is important for a range of wildlife, including otters and water voles and provides a good local wildlife site for local people in Bynea.

The volunteering carried out here and at other Council-owned sites, as well as helping with important conservation action – volunteers at **Llyn Llech Owain** have helped propagate and plant out Devil's bit scabious plants for the marsh fritillary butterfly – gives the volunteers a chance to get out in their local community, try something new, make friends and get fit. Mencap, Choose Life and community volunteers have all benefited from working on Conservation projects this year.

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi bod yn cynnal cynllun prawf eleni. Dewiswyd llecynnau addas ar ystadau tai, e.e. o amgylch tai gwarchod, gan hau yno hadau planhigion fyddai'n rhoi hwb i bryfed peillio a hynny er mwyn harddu'r llecynnau i'r preswylwyr ac er mwyn hybu'r pryfed pwysig sy'n peillio ein planhigion. Yn ogystal mae adran Gwasanaethau Stryd y Cyngor yn dal i reoli rhai safleoedd allweddol fel caeau gwair - gan adael i'r borfa dyfu'n hirach - sy'n golygu bod cynefin gwerthfawr ar gael i fywyd gwyllt. Mae'r holl bethau hyn yn gymorth o ran cyrraedd y nodau sydd gan Lywodraeth Cymru yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.

As a pilot project this year **Carmarthenshire County Council** identified areas within housing sites, e.g. around sheltered housing, where pollinator-friendly seed mixes were sown in amenity grassland areas to brighten up the area for residents and help important pollinating insects. In addition the Council's Streetscene department continue to manage selected sites as hay meadows – allowing the grass to grow longer and provide valuable habitat. These actions all help towards the objectives of the WG's Pollinator Action Plan.



Bu **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn arwain prosiect pwysig eleni er mwyn ailgyflwyno **llygod pengrwn y dŵr** yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Fferm y Ffrwd, ger Pen-bre, sy'n cael ei reoli gan **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru**. Gyda chymorth gan wirfoddolwyr rhyddhawyd 200 o lygod pengrwn y dŵr ar y safle, a arferai fod yn gynefin iddynt. Dewiswyd Cors Fferm y Ffrwd gan fod yno gynefin gwych i lygod pengrwn y dŵr, gan gynnwys ffosydd, pyllau, corslwyni a ffendir. Mae'r llygod pengrwn a ryddhawyd yn cynnwys epil nifer bychan o lygod pengrwn y dŵr a gafodd eu dal ar safleoedd yn Llanelli yr hydref diwethaf. Cawsant eu cadw'n gaeth dros y gaeaf ac yna fe'u didolwyd fesul pâr er mwyn magu yn y gwanwyn. Yn ystod y cyfnod yn union cyn y rhyddhau bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â grwpiau cadwraeth a pherchenogion tir yn lleol er mwyn gwella'r cynefinoedd cyfagos ar gyfer llygod pengrwn y dŵr.

Natural Resources Wales led on a significant project this year to re-introduce **water voles** into Ffrwd Farm Mire SSSI, near Pembrey, which is managed by the **Wildlife Trust of South and West Wales**. With the help of volunteers they released 200 water voles into the site, where they historically occurred. Ffrwd Farm Mire was selected because it provides excellent habitat for water voles including ditches, ponds, reedbeds and fen. The voles being released include the offspring of a small number of water voles captured from sites in Llanelli last autumn. These were kept in captivity over the winter and paired up to breed in the spring. In the run-up to the release, Natural Resources Wales also worked with conservation groups and local landowners to improve the surrounding habitats for water voles.



Gellir amlygu rhyfeddodau amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin mewn nifer o ffyrdd. Eleni bu disgyblion Ysgol Saron yn dysgu am yr amrywiaeth anhygoel o wyfynod sy'n byw ar dir yr ysgol ond sydd, yn achos y rhan fwyaf ohonynt, ynghudd yn ystod y dydd. Mae Grŵp Pwytho **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** wedi creu brodweithiau rhyfeddol o'r ffyngau sy'n tyfu yn ein sir, ac mae swyddog addysg Tirwedd y Dyfodol y **Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar** wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc yn y sir i ddarganfod y gelfyddyd sydd yn ein hamgylchedd! Mae **Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru** wedi bod yn cynnal cyrsiau fel y gall pobl ddysgu rhagor am wesynnod a chaneuon adar!

The wonders of Carmarthenshire's natural environment can be demonstrated in many ways. This year Saron school enjoyed learning about the amazing range of moths that occur around the school's grounds but which are mostly hidden away from sight during the day. The **National Botanic Garden Wales'** stitchers group produced wonderful embroideries of fungi found in the county and the **RSPB's** Futurescapes education officer worked with young people to discover the art in our environment! The **West Wales Biodiversity Information Centre** has run courses so that people can find out more about dragonflies and bird song!



© I.Macho



© S. Verbeeck

Gall ffyrdd fod yn fannau peryglus iawn i rai rhywogaethau yn y sir. Gwaetha'r modd yn fynych mae ein ffyrdd ni yn frith o gyrff draenogod, moch daear, ffwlbartiaid a llwynogod. Yn achos rhai rhywogaethau mae'n haws rhagweld effaith ffyrdd. Mae gan **lyffantod dafadennog** lwybrau mudo traddodiadol, a chlustnodwyd manau ar ffyrdd y sir lle mae nifer o **ddyfrgwn** wedi cael eu lladd. Eleni mae'r Cyngor wedi codi arwyddion mewn dau fan ar gyfer y rhywogaethau hyn – gosodwyd arwydd sy'n rhybuddio ynghylch dyfrgwn ar y briffordd sy'n croesi'r morfa yng Nghydweli a gosodwyd arwydd sy'n rhybuddio ynghylch llyffantod dafadennog ym hentregwenlais. Y gobaith yw y bydd y rhain o leiaf yn cynyddu ymwybyddiaeth modurwyr lleol o bresenoldeb y rhywogaethau hyn yn y cyffiniau.

Roads can be a major hazard for some species in the county. Hedgehogs, badgers, polecats and foxes are unfortunately often most often seen as road casualties. For some species the impacts of roads can be more predictable. **Toads** have traditional migrations routes and hotspots for **otters** road deaths have been identified in the county. This year the **Council** has erected signs at two sites for these species – along the coast road at Kidwelly for otters and at Pant-y-Llyn for toads. It is hoped that at the very least local motorists will be made more aware of the presence of these species in the area.



Eleni mae swyddog prosiect wedi ei gyflogi, drwy Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, i weithio gyda'r cymunedau lleol ynghylch Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru. Cynhaliwyd digwyddiadau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r prosiect ac i gymell y cymunedau lleol i fod yn gysylltiedig â'r prosiect drwy ffurfio grwpiau lleol sy'n gallu helpu â'r arolwg a'r gwaith rheoli gwiwerod llwyd drwy'r cynllun benthyca trapiau.

Yn ystod mis Tachwedd cynhaliodd y Prosiect Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy gynllun dilyn gwiwerod drwy ddefnyddio technoleg signal radio. Bu'r cynllun yn dilyn nifer o wiwerod coch ym Mryn Arau Duon, sef planhigfa gonwydd ger Pumsaint, lle daethpwyd o hyd i 10 o wiwerod coch yn ystod arolwg yn yr haf. Nod yr astudiaeth yw dysgu rhagor am sut y mae'r gwiwerod coch yn defnyddio'r coetir conwydd hwn.

This year, via the **Wildlife Trust of South and West Wales**, a project officer has been employed to work with local communities on the **Mid Wales Red Squirrel Project**. Local events have been held to raise awareness of the project and to encourage local communities to become involved through the formation of local groups that can help with survey and grey squirrel control via a trap loan scheme. During November the **Mammals in a Sustainable Environment Project** undertook a radio-tracking project, following a number of red squirrels in Bryn Arau Duon, a coniferous plantation near Pumsaint, where 10 red squirrels were identified during a survey last summer. The aim of the study was to find out more about how the reds are using this conifer woodland.



© L.Wilberforce

Bellach mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn rheoli 50 hectar o dir yng Gwarchodfa Natur Genedlaethol/Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedwig Carmel. Mae llawer o waith cadwraeth hanfodol wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn gyda chymorth grwpiau gwaith rheolaidd o wirfoddolwyr. Aethpwyd ati i ladd brwyn pabwyr a'u rhacanu o'r glaswelltir heb ei wella sy'n gyforiog o rywogaethau, ac i glirio mieri o'r llennyrch yn y coed ac o weddillion y rhostir. Hefyd gwnaed gwaith o ran cynnal a chadw'r llwybrau troed, gan sicrhau bod mynediad ledled y warchodfa. Atgyweiriwyd ffensys ac mae contractwr lleol wedi plygu bron 1 cilometr o berthi. Dechreuwyd pori at ddibenion cadwraeth ym mhob rhan o'r warchodfa; ac ym mis Gorffennaf lladdwyd y gwair yn y caeau sy'n cael eu rheoli fel caeau gwair. Datblygwyd rhaglen fonitro er mwyn bod yn gymorth o ran rheoli'r gwahanol fathau o laswelltiroedd yn y dyfodol. Hefyd gwnaed gwaith monitro o ran y rhywogaethau sy'n defnyddio'r safle - cynhaliwyd arolygon pathewod, ystumod, ymlusgiaid a glöynnod byw, ac estynnwyd gwahoddiad i'r cyhoedd ein helpu i gyfrif tegeirianau llydanwyrdd.

The **Wildlife Trust of South and West Wales** now manages 50 hectares at Carmel Woods National Nature Reserve/SAC. With the help of regular work parties of volunteers, a lot of vital conservation work has been carried out this year. Soft rush has been cut and raked from the species-rich unimproved grassland, bramble has been cleared from woodland glades and remnant heathland, and footpaths maintained, allowing access throughout the reserve. Fences have been repaired and a local contractor has laid almost 1 km of hedges. Conservation grazing has been started in all areas of the reserve; and in July a hay cut was taken from fields managed as hay meadows. To help with future management a monitoring programme for all the different grassland types has been developed. The species that use the site have been monitored as well – dormice, bat, reptile and butterfly surveys were carried out and the public were invited to help us with a Greater Butterfly Orchid count.



© R. Killa

Cafodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** gyllid o Gronfa Ecosystemau Gwydn Llywodraeth Cymru i helpu i adfer cynefinoedd twyni tywod pwysig ym Mhen-bre drwy gael gwared â rhafnwydd y môr sydd wedi ymledu dros y twyni. Cyflwynwyd y planhigyn hwn gyntaf ryw 100 mlynedd yn ôl ochr yn ochr â phlannu coed yng Nghoedwig Pen-bre, ac erbyn hyn mae wedi ymledu ar hyd holl brif systemau twyni tywod Bae Caerfyrddin.

Mae rhafnwydd y môr yn fygythiad i fywyd gwyllt cyfoethog y twyni drwy fygu'r twyni. Mae planhigion prin, gan gynnwys tegeirian y fign galchog, wedi eu colli eisoes ond effeithiwyd hefyd ar blanhigion mwy cyffredin megis y blucen felen. Erbyn hyn mae hyd yn oed yr nifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n byw yn y twyni dan fygythiad cynyddol gan gofio bod y twyni'n gadarnleoedd i nifer o rywogaethau - yn wir roedd Gwarchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre yn y pumed safle yng Nghymru o ran ei amrywiaeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Hyd yn hyn eleni gwaredwyd y planhigion hyn o 18 erw lle'r oedd rhafnwydd y môr wedi bod ers amser maith, ac ar ben hynny ffustiwyd 30 erw o rafnwydd y môr. Dylai fod modd cyn bo hir i bobl gerdded yr 1 cilometr o Warchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre drwy Barc Gwledig Pen-bre.

Carmarthenshire Council received funding from WG's Resilient Ecosystem Fund to help restore important **sand dune** habitats at Pembrey through the removal of the invasive sea buckthorn. The plant was first introduced around 100 years ago along with tree planting in Pembrey Forest and it has spread widely throughout all the major sand dune systems of Carmarthen Bay. It threatens the incredibly rich dune wildlife by smothering the dunes. Rare plants including the fen orchid have already been lost, but more common plants such as kidney vetch have also been affected. The invertebrates living in the dunes have also become even more threatened because the dunes are a stronghold for many species - Pembrey Burrows Local Nature Reserve (LNR) is ranked fifth in Wales for the range of invertebrates it supports. This year so far 18 acres of older stands of sea buckthorn have just been removed and a further 30 acres of sea buckthorn has been flailed. Soon it should be possible to walk the 1 km distance from Pembrey Burrows LNR through to Pembrey Country Park.



© S. Jones